# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 25 Chwefror 2026

Amser y cyfarfod: 13.30

# 333 (v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 3 Cwestiynau Amserol

(0 munud)

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol.

## 4 Datganiadau 90 eiliad

(5 munud)

## 5 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Categorïau o Aelodau

(5 munud)

**NDM9168** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Categorïau o Aelodau', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

## 6 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Trothwyon Rheolau Sefydlog

(5 munud)

**NDM9171** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

2. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Trothwyon Rheolau Sefydlog', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

## 7 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau gwleidyddol a grwpiadau

(5 munud)

**NDM9170** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

3. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau gwleidyddol a grwpiadau (Rheolau Sefydlog 1.3 ac 11.3)', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2026.

4. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 8 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Dirprwy Lywydd ychwanegol

(5 munud)

**NDM9167** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

5. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Dirprwy Lywydd ychwanegol', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 9 Cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog: Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor

(5 munud)

**NDM9169** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

6. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Diwygio'r Rheolau Sefydlog: Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor', a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Chwefror 2026.

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i ddiwygio Rheolau Sefydlog, fel y nodir yn Atodiad B i adroddiad y Pwyllgor Busnes.

3. Yn nodi y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf

## 10 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus: Teithio Llesol yng Nghymru

(60 munud)

**NDM9153** Mark Isherwood (Gogledd Cymru)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Deithio Llesol yng Nghymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 18 Rhagfyr 2025.

Sylwer: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Chwefror 2026.

## 11 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Gwasanaethau Offthalmoleg yng Nghymru

(60 munud)

**NDM9152** Peter Fox (Mynwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'Ymchwiliad i wasanaethau offthalmoleg yn Nghymru' a osodwyd ar 28 Tachwedd 2025.

Noder: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Ionawr 2026.

## 12 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig – Y GIG a gofal cymdeithasol

(60 munud)

**NDM9164** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) y pwysau parhaus ar y GIG yng Nghymru, gan gynnwys amseroedd aros gormodol am driniaeth, oedi o ran ymateb ambiwlansys, adrannau brys gorlawn, a'r defnydd o ofal mewn coridor;

b) pryderon a godwyd gan glinigwyr a chleifion ynghylch diogelwch a chapasiti ar gyfer cleifion ar draws system iechyd a gofal cymdeithasol Cymru; ac

c) yr angen am weithredu brys, system gyfan i adfer perfformiad a hyder y cyhoedd.

2. Yn gresynu bod perfformiad y GIG yng Nghymru, ar ôl 27 mlynedd o Lywodraeth Lafur Cymru, yn parhau i fod ymhlith y gwaethaf yn y Deyrnas Unedig o ran amseroedd aros a mynediad at driniaeth.

3. Yn credu bod maint yr her yn gofyn am ymateb brys i gynyddu capasiti, gwella llif cleifion a chryfhau gwytnwch ar draws gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) datgan argyfwng iechyd cenedlaethol i sbarduno gweithredu ar unwaith ar draws y GIG a gofal cymdeithasol;

b) ailagor wardiau ysbytai cymunedol caeedig i ddarparu gofal cam-i-lawr ac adsefydlu, a gwella llif cleifion;

c) adolygu a chynyddu capasiti gwelyau ysbyty a darpariaeth ymchwydd;

d) sefydlu tîm adfer pwrpasol i GIG Cymru i hyrwyddo gwelliannau mewn amseroedd aros a pherfformiad gofal brys;

e) dod â'r arfer o ofal mewn coridor i ben a dynodi aros 12 awr mewn adrannau brys fel digwyddiadau "byth";

f) gwella recriwtio, cadw a hyfforddi meddygon, deintyddion, nyrsys a bydwragedd;

g) ehangu canolfannau llawfeddygol a chapasiti diagnostig i leihau rhestrau aros;

h) gwella mynediad at wasanaethau meddygon teulu, gan gynnwys argaeledd apwyntiadau saith diwrnod; ac

i) cyhoeddi cynllun gweithlu a seilwaith hirdymor i foderneiddio'r GIG a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Jane Hutt (Bro Morgannwg)]

Dileu popeth a rhoi yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi

a) buddsoddiad mwy nag erioed Llywodraeth Cymru yn GIG Cymru, sy’n golygu bod Cymru'n gwario 9 y cant yn fwy y pen ar iechyd nag yn Lloegr;

b) bod y rhestr aros ar gyfer gofal a gynlluniwyd wedi gostwng am saith mis yn olynol a bod arosiadau dwy flynedd ar eu hisaf ers mis Chwefror 2021;

c) bod oedi wrth drosglwyddo cleifion o ambiwlansys bron chwarter yn is ym mis Ionawr 2026 o'i gymharu â blwyddyn yn ôl; a

d) bod y nifer uchaf erioed o staff clinigol yn cael eu cyflogi yn y GIG.

2. Yn croesawu'r camau sydd wedi’u cymryd i gynyddu tryloywder ac atebolrwydd yn y GIG, gan gynnwys fframweithiau uwchgyfeirio newydd ar gyfer y byrddau iechyd a’r cyfarfodydd atebolrwydd cyhoeddus gyda sefydliadau GIG Cymru.

**Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.**

**Gwelliant 2** [James Evans (Brycheiniog a Sir Faesyfed)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 1 a rhoi yn ei le:

Yn credu y dylai'r GIG bob amser aros yn ddi-dâl ar y pwynt cyflwyno.

Yn gresynu bod 27 mlynedd o Lywodraethau Llafur Cymru gyda chefnogaeth Plaid Cymru wedi arwain at rai o ystadegau gwaethaf y GIG yn y Deyrnas Unedig.

Yn cydnabod, yn ôl ystadegau iechyd diweddaraf y GIG a gyhoeddwyd ar 19 Chwefror:

a) bod perfformiad ymateb ambiwlansys wedi gwaethygu ar gyfer amseroedd ymateb galwadau coch canolrifol a 90ain canradd yn ogystal ag amseroedd ymateb galwadau porffor y 90ain canradd;

b) bod rhestrau aros dwy flynedd y GIG yng Nghymru yn parhau i fod bron i 24 gwaith yn hirach na'r rhestr gyfatebol yn Lloegr, er gwaethaf eu poblogaeth sylweddol uwch; ac

c) bod 11,392 o gleifion wedi aros dros 12 awr mewn adrannau brys yng Nghymru ym mis Ionawr, er gwaethaf y ffaith mai'r targed yw dim cleifion yn aros dros 12 awr.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i leihau rhestrau aros y GIG a gwella perfformiad y GIG drwy:

a) cynnal adolygiad cynhwysfawr o drefniadau llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar draws holl sefydliadau'r GIG yng Nghymru, gyda'r bwriad o gryfhau goruchwyliaeth, gwella perfformiad, a sicrhau safonau gofal cyson i gleifion; a

b) torri gwastraff a biwrocratiaeth i sicrhau bod arian trethdalwyr yn cyrraedd rheng flaen y GIG.

**Cyd-gyflwynwyr**

Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru)

**Os derbynnir gwelliant 2, caiff gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 3** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Dileu popeth ar ôl pwynt 2 a rhoi'n ei le:

Yn gresynu:

a) at effaith polisïau llymder Llywodraeth Geidwadol flaenorol y DU ar ganlyniadau iechyd yng Nghymru; a

b) at effaith Brexit ar brisiau cyffuriau ar gyfer y GIG

Yn credu bod Llafur a'r Ceidwadwyr wedi dangos eu bod yn gwbl anaddas fel gwarchodwyr y GIG.

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) gweithredu adroddiad Plaid Cymru ar ddiwygiadau llywodraethiant yn y GIG, 'System Iechyd Cymru: Atebolrwydd, Perfformiad a Diwylliant';

b) gweithredu cynllun Plaid Cymru i fynd i'r afael ag argyfwng rhestrau aros Llafur, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025;

c) hyrwyddo datblygiad y rhaglen i sefydlu Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol i Gymru, a ddechreuwyd gan Blaid Cymru;

d) cryfhau gofal sylfaenol drwy gynyddu'r gyfran o gyllideb Cymru sy'n cael ei gwario ar Wasanaethau Meddygol Cyffredinol ac adolygu'r fformiwla Carr-Hill; ac

e) cyflwyno diwygiadau deddfwriaethol i fynd i'r afael ag oediadau rhyddhau cleifion o'r ysbyty gan ryddhau llefydd gwelyau sbâr yn fwy effeithlon.

'System Iechyd Cymru: Atebolrwydd, Perfformiad a Diwylliant';

Cynllun Plaid Cymru ar gyfer yr NHS - Plaid Cymru

## 13 Cynnig i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

(5 munud)

**NDM9166** Elin Jones (Ceredigion)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i'r Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) yng Nghyfnod 3 yn y drefn ganlynol:

a) Adrannau 1 – 6;

b) Atodlen 1;

c) Adrannau 7 – 12;

d) Teitl hir.

## 14 Cyfnod pleidleisio

## 15 Dadl Fer

(30 munud)

**NDM9165** Buffy Williams (Rhondda)

Cymoedd actif, bywydau iachach - sut y gall chwaraeon llawr gwlad a chymunedol newid bywydau.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 3 Mawrth 2026

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 18/02/2026 i'w hateb ar 25/02/2026

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS YR ECONOMI, YNNI A CHYNLLUNIO

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

1 OQ63856 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cyflawni ei pholisi ynni?

**Rhianon Passmore** *Islwyn*

2 OQ63896 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi manwerthwyr bach yn Islwyn?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ63877 **(e)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda busnesau i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith yn Nwyrain De Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

4 OQ63880 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar ddyfodol y sector awyrofod yng Nghymru?

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

5 OQ63886 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am effaith cau Gilks ar Ynys Môn?

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

6 OQ63872 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r sector lletygarwch yn Nwyrain De Cymru?

**John Griffiths** *Dwyrain Casnewydd*

7 OQ63883 **(e)**

Pa drafodaethau y mae yr Ysgrifennydd Cabinet wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch amddiffyniadau Gwastadeddau Gwent rhag prosiectau ynni solar ar raddfa fawr yn y dyfodol?

8

**Adam Price** *Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr*

OQ63890 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu'r economi leol yn Rhydaman a Dyffryn Aman yn ehangach?

9

**Hannah Blythyn** *Delyn*

OQ63895 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi busnesau lleol yn Delyn?

10

**Cefin Campbell** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ63869 **(e)** Tynnwyd yn ôl

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiad y Grŵp Cynghori Annibynnol ar Grid Trydan y Dyfodol i Gymru a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2026?

11

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

OQ63857 **(w)**

Sut y mae'r Llywodraeth yn cefnogi busnesau bach lleol yng Ngorllewin De Cymru?

12

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ63861 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yng ngorllewin Cymru?

## YSGRIFENNYDD Y CABINET DROS IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL

1

**Sian Gwenllian** *Arfon*

OQ63875 **(w)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am wasanaethau mamolaeth yn y gogledd?

2

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

OQ63889 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Ysgrifennydd Cabinet wedi'i wneud o berfformiad cyffredinol GIG Cymru yn ystod y 12 mis diwethaf?

3

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

OQ63868 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar berfformiad adrannau brys yng ngogledd Cymru?

4 **Lesley Griffiths** *Wrecsam*

OQ63859 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella bywydau pobl sy'n dioddef o osteoporosis?

5 **Andrew R.T. Davies** *Canol De Cymru*

OQ63876 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad ar y newidiadau arfaethedig i'r contract deintyddol sydd i fod i ddod i rym ym mis Ebrill 2026?

6 **Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

OQ63862 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r dull o ddarparu gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru?

7 **Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

OQ63865 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu seilwaith gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru?

8 **Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ63871 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc?

9 **Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ63867 **(e)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o berfformiad parhaus gwasanaeth imiwneiddio Cymru?

10 **Lindsay Whittle** *Caerffili*

OQ63891 **(e)**

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyfforddiant gweithwyr meddygol proffesiynol?

11 **Buffy Williams** *Rhondda*

OQ63854 **(e)**

A wnaiff yr Ysgrifennydd Cabinet ddatganiad am y newidiadau sydd ar y gweill i gontract deintyddol y GIG ar gyfer Cymru, sydd i ddod i rym ym mis Ebrill 2026?

**Hannah Blythyn** *Delyn*

12 OQ63894 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ymestyn gwasanaethau iechyd yn y gymuned?